



Teitl: Title:	Polisi Rheoli Presenoldeb ac Ymgysylltiad Myfyrwyr Student Engagement and Attendance Management (SEAM) Policy
Fersiwn: Version	2
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Students

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	HE SEAM Policy - Welsh and E&D Impact Assessment Stage 1
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	Deon Mynediad ac AU Dean of Access & HE		
Ymgynghoriad / Consultation:	Grŵp Llywio AU a Mynediad HE & Access Steering Group		
Dyddiad cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group	2709/21	
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:	11/01/23	
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	n/a
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	n/a
	Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant /	n/a	

	Finance, People & Culture Committee:	
	Corff Llywodraethu / Governing Body:	n/a
Dyddiad Adolygu: Review Date:	11/01/26	

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff

Table of Contents

Enw'r Strategaeth / Polisi

1. Cyflwyniad	
2. Cwmpas y Polisi	
3. Datganiad Polisi Cofnodi a Monitro Presenoldeb	
4. Cofnodi Presenoldeb	
5. Gofynion Presenoldeb	
6. Monitro Presenoldeb / Ymgysylltiad	
7. Gweithredu ac Adolygu'r Polisi hwn	
8. Tynnu'n ôl o astudiaethau neu derfynu astudiaethau	
9. Atodiad 1 - Tabl Ffioedd	

Gweler hefyd -

[COPI - Gweithdrefn Rheoli Presenoldeb Myfyrwyr AU](#)

[COPI - Polisi Tiwtoriaid Personol i Fyfyrwyr Addysg Uwch](#)

[Dangosyddion Perfformiad Allweddol AU 2021 Ymlaen](#)

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae dull cyffredinol Addysg Uwch yn Cambria (mewn cydweithrediad â'n Prifysgolion partner / cyrff dyfarnu) o gofnodi a monitro presenoldeb myfyrwyr yn un sy'n darparu cymorth i fyfyrwyr trwy eu hastudiaethau er mwyn iddynt ymgysylltu a chyflawni i ennill eu cymhwyster. Mae presenoldeb yn un o sawl ffordd y mae myfyrwyr yn ymgysylltu â'u hastudiaethau, a dylai cofnodi a monitro presenoldeb roi gwybodaeth i staff i gefnogi myfyrwyr i gwblhau eu hastudiaeth yn llwyddiannus. Nid yw'r dull o fonitro presenoldeb myfyrwyr yn gosbol; mae

Cambria yn deall bod myfyrwyr weithiau'n cael anawsterau yn ystod eu hastudiaethau sy'n eu hatal rhag ymgysylltu'n llawn â'u cwrs.

- 1.2. Mae'r Polisi hwn wedi'i gynllunio i egluro'r dull hwn a sut y bydd staff gwasanaethau academaidd a chymorth yn defnyddio'r systemau a'r prosesau sydd ar waith i gofnodi, adolygu a monitro presenoldeb myfyrwyr a, lle bo'n briodol, ceisio cefnogi myfyrwyr i oresgyn unrhyw anawsterau sy'n effeithio ar eu hymgysylltiad gyda'u cwrs.
- 1.3. Mae presenoldeb rheolaidd mewn gweithgareddau addysgu a thiworial yn ôl amserlen yn gwella perfformiad a chanlyniadau myfyrwyr yn eu hastudiaethau. Mae cofnodi presenoldeb myfyrwyr fel rhan o fonitro eu hymgysylltiad a'u cefnogi yn eu hastudiaethau yn gwella dilyniant academaidd ac felly'n gwella cyfraddau cadw myfyrwyr. Nid mater disgyblu yw presenoldeb gwael, ond mater sy'n gysylltiedig â chynnydd academaidd.
- 1.4. Mae gan Cambria rwymedigaethau cyfreithiol i gofnodi presenoldeb myfyrwyr AB ac AU a monitro ymgysylltiad er mwyn cydymffurfio â gofynion adrodd statudol gan gynnwys Cyllid Myfyrwyr Cymru (sef Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr), cyrff achredu proffesiynol a chynghorau cyllido'r llywodraeth.
- 1.5. Mae absenoldeb anawdurdodedig myfyrwyr o astudiaethau yn peryglu eu cyfle i ddysgu, gall amharu ar eu perfformiad a'u cyflawniad ac, mewn rhai amgylchiadau, gall hefyd beryglu'r cyfle i eraill ddysgu. Gall absenoldeb myfyrwyr olygu bod naill ai Cambria, ein Prifysgolion partner a/neu'r myfyriwr yn cael cyllid nad oes ganddo hawl iddo bellach. Ar rai cyrsiau, yn enwedig y rhai sy'n cael eu rheoleiddio gan gyrrff proffesiynol, mae angen lefelau presenoldeb uchel i fodloni'r gofynion ar gyfer ennill y cymhwyster.
- 1.6. Felly mae Cambria yn cofnodi ac yn monitro presenoldeb myfyrwyr i gefnogi cadw myfyrwyr yn dda, canlyniadau llwyddiannus i fyfyrwyr ac i fodloni gofynion statudol. Mae monitro ymgysylltiad myfyrwyr, sy'n cynnwys presenoldeb dysgu yn ôl amserlen, yn rhyngweithiad cefnogol i helpu myfyrwyr i oresgyn unrhyw anawsterau a allai fod ganddynt wrth fodloni gofynion presenoldeb eu cwrs.
- 1.7. Er gwaethaf yr egwyddor gyffredinol na ddylid ymdrin â phresenoldeb gwael myfyrwyr fel mater disgyblu, rhaid i fyfyrwyr ar gyrsiau proffesiynol perthnasol gydymffurfio â'r holl ofynion priodoldeb i ymarfer sy'n berthnasol i bresenoldeb.
- 1.8. Mae Cambria yn cydnabod y gofynion cyfreithiol ac yn eu cefnogi i wneud addasiadau rhesymol a/neu lwfansau o dan delerau'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Lle bo myfyriwr yn datgelu bod ganddynt amgylchiadau y gellir eu dilysu a all effeithio ar eu presenoldeb, bydd Cyfarwyddwyr yn ystyried hyn ac yn gwneud addasiadau rhesymol i'r Polisi fel y bo'n briodol, ar ôl cael cyngor gan Gyfarwyddwyr Cwricwlwm, Arweinwyr Rhaglen a Thiworiaid.

2. Cwmpas y Polisi

- 2.1. Mae'r Polisi yn ategu ac yn adeiladu ar Reoliadau Academaidd ein Prifysgolion partner / cyrff dyfarnu ar gyfer myfyrwyr, sy'n nodi bod angen presenoldeb myfyrwyr yng ngweithgareddau dysgu cyrsiau a modiwlau ar yr amserlen. Mae Rheoliadau Academaidd ein Prifysgolion partner/cyrff dyfarnu yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau a addysgir yn Cambria.
- 2.2. Mae'r Polisi yn berthnasol i holl fyfyrwyr AU Cambria sy'n astudio ar gyrsiau a addysgir, lle bydd prosesau cofnodi a monitro presenoldeb lleol yn cael eu rhoi ar waith.
- 2.3. Mae trefniadau ar wahân ar gyfer cofnodi a monitro myfyrwyr AU sydd ar leoliadau gwaith a lleoliadau astudio sy'n rhan o'u cwrs. O fewn fframwaith gweinyddol cyffredin, sydd wedi'i ddylunio ac yn cael ei gynnal gan Gofrestrfa Academaidd y Brifysgol bartner, mae Cyfarwyddiaethau'n gyfrifol am sicrhau bod mecanweithiau effeithiol ar waith i gofnodi a monitro presenoldeb myfyrwyr ar leoliadau gwaith a lleoliadau astudio i sicrhau y gall Cambria gydymffurfio â'i ddyletswyddau adroddiadau statudol, yn ogystal â chefnogi myfyrwyr i gyflawni canlyniadau llwyddiannus.

3. Datganiad Polisi Cofnodi a Monitro Presenoldeb

- 3.1. Bydd presenoldeb myfyrwyr yn cael ei gofnodi ar lefel modiwl fesul digwyddiad a drefnwyd. Bydd presenoldeb ac ymgysylltiad cyffredinol myfyrwyr yn cael ei fonitro ar lefel cwrs / rhaglen. Wrth fonitro ymgysylltiad myfyrwyr gyda'u cwrs byddwn yn ystyried data presenoldeb yn ogystal â dangosyddion ymgysylltu eraill, fel yr hyn oedd y system Diwtorial a rhyngweithiadau eraill yn eu dangos.

4. Cofnodi Presenoldeb

- 4.1. Mae disgwyl i fyfyrwyr fynd i weithgareddau ddysgu sydd wedi'u hamserlennu a chyfarfodydd goruchwylio wedi'u trefnu. Mae presenoldeb da yn arwain at ganlyniadau gwell i fyfyrwyr.
- 4.2. Bydd presenoldeb yn holl ddigwyddiadau a drefnwyd yn cael ei gofnodi. Caiff digwyddiad a drefnwyd ei ddiffinio fel digwyddiad sy'n cael ei amserlennu'n orfodol (yn hytrach na dewisol) trwy system amserlennu Cambria. Mae digwyddiadau o'r fath yn cynnwys darlithoedd, seminarau, gweithdai, sesiynau ymarferol a sesiynau labordy.
- 4.3. Bydd data presenoldeb myfyrwyr yn cael ei gasglu yn y systemau Amserlennu a Phresenoldeb Cambria y bydd staff yn eu cwblhau fesul sesiwn.
- 4.4. Mae system Tiwtorial Cambria yn cael ei defnyddio i gofnodi ymgysylltiad â gweithgareddau eraill gan gynnwys traethawd hir / cyfarfodydd goruchwylio (myfyrwyr AU yn unig)

5. Gofynion Presenoldeb

- 5.1. Mewn cyd-destun addysg, mae Cambria yn derbyn bod disgyblaethau pwnc gwahanol angen lefelau presenoldeb gwahanol o bosib ar gyfer gweithgareddau dysgu. Fodd bynnag, er mwyn annog lefelau presenoldeb da ar draws pob maes pwnc, dylai'r holl gyrsiau ddisgwyl lefelau cyffredinol myfyrwyr gyrraedd y Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) a **gyhoeddir yn flynyddol ar gyfer presenoldeb (gweler- [Dangosydd Perfformiad Allweddol AU 2021 Ymlaen](#))** i roi'r cyfle gorau iddynt lwyddo yn eu cymhwyster. Cyfeirir at y trothwy dangosol hwn wrth fonitro ymgysylltiad cyffredinol myfyriwr â'i gwrs, naill ai wrth bennu unrhyw gymorth, neu wrth werthuso i ba raddau y mae'r myfyriwr yn bodloni gofynion academiaidd y cwrs.
- 5.2. Yn unol ag ymagwedd Cambria at addysgu a dysgu, ac mewn ymateb i ofynion cyrff proffesiynol, gall rhai modiwlau/cyrsiau unigol, lle cânt eu cymeradwyo ac am resymau addysgeg da, ymgorffori gofyniad presenoldeb penodol fel rhan o'r meini prawf asesu ar gyfer cwblhau'r modiwl/cwrs yn llwyddiannus. Rhaid i'r Gyfarwyddiaeth berthnasol dynnu sylw myfyrwyr at unrhyw ofynion presenoldeb modiwl/cwrs penodol a'r dulliau monitro presenoldeb trwy lawlyfrau cwrs perthnasol a deunyddiau cwrs eraill i fyfyrwyr. Rhaid tynnu sylw myfyrwyr at ofynion presenoldeb ychwanegol yn ystod sgysiau rhagarweiniol a sesiynau ymsefydlu. Dim ond pan fydd wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol, y bydd cyflwyno gofynion presenoldeb penodol fel rhan o feini prawf asesu ffurfiol y modiwl yn dderbyniol.
- 5.3. Gall methu â chyflawni gofynion presenoldeb modiwl / cwrs arwain at y Bwrdd Asesu perthnasol yn ystyried cynnydd academiaidd y myfyriwr yn anfoddhaol, a fyddai'n arwain at derfynu astudiaethau.
- 5.4. Mae'r gofynion presenoldeb ar lefel modiwl ar gyfer myfyrwyr rhan amser yr un fath â gofynion ar gyfer myfyrwyr llawn amser sy'n astudio'r un modiwlau. Dylai monitro presenoldeb myfyrwyr rhan amser ar gyrsiau fod yn gymesur â dwyster eu hastudiaeth. Mae hyn yn berthnasol yn yr un modd i fyfyrwyr sy'n ailadrodd eu hastudiaethau ar sail pro-rata.

6. Monitro Presenoldeb / Ymgysylltiad

- 6.1. Maes Cyfarwyddiaethau sy'n gyfrifol am fonitro ymgysylltiad myfyrwyr â'u hastudiaethau ac am gymryd camau priodol gyda myfyrwyr nad ydynt yn ymgysylltu'n briodol.
- 6.2. Mae Gwasanaethau Myfyrwyr yn darparu cymorth i feysydd Cyfarwyddiaeth i gefnogi myfyrwyr gyda'u hymgysylltiad â'u hastudiaethau trwy ddarparu cyngor ac arweiniad arbenigol wedi'u targedu gan gynnwys y meysydd canlynol:
 - 6.2.1. Anabledd
 - 6.2.2. Cyllid myfyrwyr a chymorth ariannol / cronfa galedi
 - 6.2.3. Iechyd a llesiant
 - 6.2.4. Gadawyr gofal
 - 6.2.5. Myfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu
- 6.3. Bydd meysydd Cyfarwyddiaeth yn ymchwilio i unrhyw absenoldeb anawdurdodedig a/neu bresenoldeb sydd gan fyfyrwr a byddant yn mynd ati i ddilyn y tri cham isod os oes arwydd nad yw myfyrwr yn ymgysylltu'n briodol. Lle bo'n briodol, gellir ceisio cyngor gan y Gwasanaethau Myfyrwyr a gellir cyfeirio myfyrwyr at y gwasanaeth perthnasol. Yn aml, gall ymyrraeth gynnar gyda gwasanaethau arbenigol atal myfyrwyr rhag cyrraedd diwedd prosesau ffurfiol yn rhy gynnar a gall atal amgylchiadau rhag mynd yn aciwt. Dylai staff sy'n ymwneud ag olrhain diffyg presenoldeb gyda myfyrwyr wneud hynny'n dosturiol, yn sensitif a gyda'r prif nod o gefnogi'r myfyrwr i fynd yn ôl i fynyachu'n rheolaidd.
- 6.4. Bydd naws yr ohebiaeth a'r cyfarfodydd gyda myfyrwyr yn gefnogol ac yn glir gyda'r nod o annog myfyrwyr i wella eu lefelau presenoldeb.
- 6.5. Bydd unrhyw gyfarfodydd adolygu presenoldeb / cynnydd yn cael eu cynnal mewn modd cefnogol, gan geisio archwilio'r rhesymau dros ddiffyg presenoldeb / absenoldeb anawdurdodedig gyda'r myfyrwr a rhoi mesurau ar waith i'w cefnogi yn eu dilyniant academaidd. Nid cyfarfodydd disgyblu yw cyfarfodydd presenoldeb ac adolygu cynnydd gyda myfyrwyr ac nid ydynt yn dod o dan y Gweithdrefnau Disgyblu Myfyrwyr, ond Rheoliadau Academaidd ein Prifysgolion partner / cyrff dyfarnu. Dylid cofnodi'r ymyriadau a'r cyfarfodydd hyn yn y system Diwtorial lle bynnag y bo'n bosibl.

6.6. **Cam un - arwydd cychwynnol ac ymyriad rhagarweiniol**

- 6.6.1. Os bydd unrhyw absenoldeb anawdurdodedig neu batrymau presenoldeb sy'n awgrymu bod y myfyrwr yn disgyn islaw'r trothwy isaf ar gyfer y cwrs neu fodiwl penodol o fewn cyfnod o bythefnos bydd yr Arweinydd Rhaglen neu Diwtor Personol yn trafod hyn gyda'r myfyrwr a bydd gofyn i'r myfyrwr ymateb yn syth. Bydd yr ymyriad hwn yn cynnwys nodyn atgoffa anffurfiol i'r myfyrwr o'r gofynion presenoldeb;

6.7. **Cam dau – ymyrraeth anffurfiol a chefnogol gyda'r Cyfarwyddwr Cwricwlwm**

- 6.7.1. Os bydd y myfyrwr yn methu ag ymateb neu os bydd eu presenoldeb yn parhau'n anfoddhaol, caiff y myfyrwr eu cyfeirio at Gyfarwyddwr Cwricwlwm y myfyrwr a fydd yn ceisio cysylltu â'r myfyrwr a'u gwahodd i gyfarfod. Bydd yr ymyriad hwn yn cynnwys cyngor cadarn i'r myfyrwr ynghylch os ydynt yn methu ag ymateb / neu'n methu â gwella eu presenoldeb, bod perygl i derfynu eu hastudiaethau;

6.8. **Cam tri – ymyrraeth ffurfiol a chefnogol gyda'r Deon AU/Mynediad i AU;**

- 6.8.1. Pan fydd gan yr Arweinydd Rhaglen, y Tiwtor Personol, neu'r Arweinydd Modiwl, bryderon ynghylch lefelau presenoldeb myfyrwr neu ddiffyg ymgysylltiad â'i

astudiaethau, bydd yn eu cyfeirio at y Cyfarwyddwr Cwricwlwm. Mae cyfarwyddiaethau'n gyfrifol am archwilio'r rhesymau dros bresenoldeb gwael a diffyg ymgysylltu gyda'r myfyrwyr a'u cefnogi, lle bynnag y bo modd, er mwyn gwella.

- 6.8.2. Os bydd y myfyriwr yn parhau i beidio ag ymateb neu os nad yw eu lefelau presenoldeb yn gwella, bydd y tîm AU yn gwahodd y myfyriwr i gyfarfod gyda Deon AU a Mynediad i AU. Bydd yr ymyriad hwn yn cynnwys rhybudd olaf i'r myfyriwr y gallai'r Deon argymhell i Fwrdd Asesu ein Prifysgolion partner / cyrff dyfarnu i derfynu eu hastudiaethau os na fydd eu presenoldeb yn gwella.
- 6.8.3. Bydd pob cyswllt â myfyrwyr ynghylch eu presenoldeb yn cael ei wneud i'w cyfrif e-bost Cambria a thrwy neges destun neu ffôn. Bydd y broses/system Tiwtorial yn cael ei defnyddio i gychwyn a chynnal ymyriadau gyda myfyrwyr ynghylch eu presenoldeb
- 6.8.4. Pan fo presenoldeb myfyriwr yn disgyn yn is na'r lefelau a ystyrir yn dderbyniol iddynt wneud cynnydd academiaidd boddhaol ar eu cwrs, ac yn unol â Rheoliadau Academiaidd ein Prifysgolion partner / cyrff dyfarnu, gall y Bwrdd Asesu derfynu astudiaethau. Gall unrhyw apêl gan y myfyriwr yn erbyn penderfyniad o'r fath gan y Bwrdd Asesu gael ei chyflwyno o dan weithdrefnau apêl academiaidd ein Prifysgolion partner / cyrff dyfarnu.
- 6.8.5. Lle mae amgylchiadau personol, ariannol neu iechyd myfyriwr AU yn eu hatal rhag mynychu dosbarthiadau ar lefel sy'n caniatáu iddynt wneud cynnydd academiaidd boddhaol, mae ganddynt hawl i ofyn am doriad astudiaethau gan ddefnyddio gweithdrefnau sefydledig ein Prifysgolion partner/cyrff dyfarnu. Mae hyn yn caniatáu seibiant o'u hastudiaethau lle bydd atebolrwydd ffioedd yn cael ei ohirio ac nid yw'n ofynnol i'r myfyriwr fynd i'r coleg na gwneud cynnydd.

7. Gweithredu ac Adolygu'r Polisi hwn

- 7.1. Cofrestrfa Academiaidd ein Prifysgolion partner / cyrff dyfarnu sy'n gyfrifol am weithredu a monitro'r Polisi hwn, mewn partneriaeth â Chyfarwyddiaethau Cambria.
- 7.2. Bydd y Polisi hwn yn cael ei gyfleu i'r holl staff gan y Rheolwr Cydymffurfiaeth AU a'r Deon AU / Mynediad i AU.
- 7.3. Rhoddir canllawiau cynghori ar ofynion presenoldeb i fyfyrwyr mewn llawlyfrau. Mae Cambria yn ymdrechu i bob myfyriwr gael presenoldeb sy'n cyrraedd o leiaf y Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) a gyhoeddir yn flynyddol ar gyfer presenoldeb (Gweler - [Dangosyddion Perfformiad Allweddol AU 2021 Ymlaen](#))
- 7.4. Bydd y Polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau cywirdeb ac i sicrhau bod unrhyw newidiadau i rwymedigaethau statudol a osodir ar Cambria yn cael eu cynnwys. Os nad oes angen unrhyw newidiadau, bydd y Polisi yn cael ei ail-gymeradwyo'n ffurfiol bob 3 blynedd.

8. Tynnu'n ôl o astudiaethau neu derfynu astudiaethau

- 8.1. Yma rhaid cynnwys manylion am oblygiadau'r uchod a'r effaith ar gyllid a chynnwys cyfrifoldebau myfyrwyr i roi gwybod i Gyllid Myfyrwyr ac ati

9. Atodiad 1

Tabl ffioedd

Prifysgol / Partner	Atebolrwydd Ffioedd Myfyrwyr
Prifysgol Aberystwyth	https://www.aber.ac.uk/cy/study-with-us/fees/student-fees/early-withdrawal/
Prifysgol Bangor	https://www.bangor.ac.uk/student-administration/fees/documents/Tuition-Fees-Policy%20-202021-CY-published-16092020.pdf
Prifysgol Caer	
Prifysgol John Moores Lerpwl (LJMU)	<p>a. os yw'r myfyriwr yn tynnu'n ôl yn llai na mis ar ôl y Dyddiad Dechrau ni fydd unrhyw Ffi yn daladwy o ran y myfyriwr sy'n tynnu'n ôl;</p> <p>b. os yw'r myfyriwr yn tynnu'n ôl yn fwy na mis ar ôl y Dyddiad Dechrau ond yn llai na tri mis ar ôl y Dyddiad Dechrau, bydd pum ar hugain (25%) o'r Ffi i bob myfyriwr yn daladwy o ran y myfyriwr sy'n tynnu'n ôl;</p> <p>c. os yw'r myfyriwr yn tynnu'n ôl fwy na tri mis ar ôl y Dyddiad Dechrau ond yn llai na chwe mis ar ôl y Dyddiad Dechrau, bydd pumdeg y cant (50%) o'r Ffi i bob myfyriwr yn daladwy o ran y Myfyriwr sy'n tynnu'n ôl;</p> <p>d. os yw'r myfyriwr yn tynnu'n ôl fwy na chwe mis ar ôl y Dyddiad Dechrau, bydd cant y cant (100%) o'r Ffi i bob myfyriwr yn daladwy o ran y Myfyriwr sy'n tynnu'n ôl;</p>
Pearson	
Abertawe - Rhaglenni Busnes	<p>Newid Statws Cofrestru Os bydd myfyriwr yn penderfynu tynnu'n ôl o'r rhaglen, bydd angen iddynt roi gwybod i Arweinydd y Rhaglen a thrafod y mater gyda nhw yn y lle cyntaf. Mae'r Ffurflen Newid Statws Cofrestru i'w gweld ar dudalen 51 (Atodiad IV); bydd angen ei chwblhau a'i chyflwyno i'r Arweinydd Rhaglen.</p> <p>Dylai myfyrwyr nodi bod y canlynol yn berthnasol mewn perthynas â thalu ffioedd:</p> <p>Y dyddiadau a ddefnyddir at ddibenion ailgyfrifo sy'n seiliedig ar y 'dyddiad presenoldeb olaf' pan fydd myfyriwr yn gohirio neu'n tynnu'n ôl yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tymor 1: Yn bresennol hyd at ddiwrnod olaf y

	<p>tymor 1, 25% o'r ffi lawn i'w dalu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tymor 2: Yn bresennol hyd at ddiwrnod olaf y tymor 2, 50% o'r ffi lawn i'w dalu • Tymor 3: Yn bresennol hyd at ddiwrnod olaf y tymor 3, 100% o'r ffi lawn i'w dalu
<p>Abertawe - Rhaglenni Peirianeg</p>	<p>Mae'r manylion isod yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n tynnu Cyllid Myfyrwyr yn ôl o naill ai Cyllid Myfyrwyr Lloegr neu Gyllid Myfyrwyr Cymru, nid pan fo rhaglenni'n cael eu hariannu trwy gyllid Prentisiaeth Gradd.</p> <p><u>Newid Statws Cofrestru</u></p> <p>Os bydd myfyriwr yn penderfynu tynnu'n ôl o'r rhaglen, bydd angen iddo roi gwybod i Arweinydd y Rhaglen a thrafod y mater gyda nhw yn y lle cyntaf. Mae'r Ffurflen Newid Statws Cofrestru i'w gweld ar dudalen 51 (Atodiad IV); bydd angen ei chwblhau a'i chyflwyno i'r Arweinydd Rhaglen.</p> <p>Dylai myfyrwyr nodi bod y canlynol yn berthnasol mewn perthynas â thalu ffioedd</p> <p>Y dyddiadau a ddefnyddir at ddibenion ailgyfrifo sy'n seiliedig ar y 'dyddiad presenoldeb olaf' pan fydd myfyriwr yn gohirio neu'n tynnu'n ôl yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tymor 1: Yn bresennol hyd at ddiwrnod olaf y tymor 1, 25% o'r ffi lawn i'w dalu • Tymor 2: Yn bresennol hyd at ddiwrnod olaf y tymor 2, 50% o'r ffi lawn i'w dalu • Tymor 3: Yn bresennol hyd at ddiwrnod olaf y tymor 3, 100% o'r ffi lawn i'w dalu
<p>Prifysgol Glyndŵr Wrecsam</p>	<p>O ran y rhaglen HNC, mae Coleg Cambria yn hawlio ffioedd myfyrwyr yr ydych yn eu cadw, mae Glyndŵr yn hawlio cyllid credyd CCAUC yr ydym yn ei drosglwyddo, ond rhaid i'r myfyriwr gwblhau'r modiwlau.</p> <p>Felly does dim ffi fel y cyfryw am adael, ni fyddem yn disgwyl i chi ddychwelyd ffioedd myfyrwyr i gyd-fynd â'ch polisïau yn unig</p>